

---

# BWLETIN POLISI CYTÛN

## IONAWR 2015

---



### SWYDDOG POLISI NEWYDD CYTÛN

Mae Cytûn wedi penodi'r Parchedig Gethin Rhys yn Swyddog Polisi newydd i olynu Geraint Hopkins, a adawodd Cytûn ym mis Rhagfyr ar ôl 7 mlynedd i ganolbwyntio ar ei waith yn aelod o Gabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf.

Cafodd Gethin ei eni a'i fagu yn Rhiwbeina, Caerdydd, a'i addysgu yn Ysgol Gyfun Rhydfelen a Phrifysgolion Rhydychen a Birmingham. Mae'n weinidog gyda'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Bu'n gwasanaethu gofalaethau yn Aberhonddu (ar y cyd â'r Annibynwyr Cymraeg), Trefforest, Porth y Rhondda a Phenrhys (yn eglwys gyd-enwadol Llanfair). Bu hefyd gyda'i wraig, Dr Fiona Liddell, yn gyd-Warden Coleg Trefeca (Eglwys Bresbyteriaid Cymru) ac yn 2003-5 bu'n Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eglwys Cyfamodol yng Nghymru ac yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol i Cytûn. Cychwynnodd ar ei waith fel Swyddog Polisi yn Ionawr 2015 ac mae'n falch o allu cyfuno yn y swydd hon ei gefndir mewn Gwleidyddiaeth a Diwinyddiaeth fel ei gilydd. Mae ganddo ddiddordeb oes mewn agweddau ar gyd-weu diwinyddiaeth Feiblaidd â materion cyhoeddus, ac ef oedd awdur y bennod am Gymru yn y gyfrol *Belonging to Britain: Christian Perspectives on a Plural Society* (Cyngor Eglwys Prydain ac Iwerddon, 1991).

### BIL TREFTADAETH NEWYDD AR EI FFORDD

Bydd Ken Skates, y Dirprwy Weiniudog Diwylliant a Chwaraeon, yn cyflwyno Bil Treftadaeth newydd gerbron y Cynulliad ar Ddydd Mawrth 20fed Ionawr, i gychwyn ar ei daith drwy'r broses deddfu ym mis Ebrill. Fe fydd y Bil:

- Yn cynyddu pwerau'r llywodraeth i atal difrod i henebion cofrestredig
- Yn caniatáu i awdurdodau lleol ymyrryd pan fo gwaith wedi'i wneud heb awdurdod priodol i adeilad sydd rhestredig
- Sefydlu panel annibynnol i gynghori am bolisi a strategaeth parthed yr amgylchfyd hanesyddol yng Nghymru
- Cyflwyno cytundebau partneriaeth dros gyfnod o flynyddoedd i ganiatáu i berchnogion asedau hanesyddol fwrw ymlaen â chynlluniau gofal heb orfod gwneud ceisiadau cynllunio dro ar ôl tro

Fe fydd gan eglwys Cymru ddiddordeb mawr yn y Bil hwn gan fod cymaint o adeiladau rhestredig Cymru yng ngofal enwadau crefyddol. Bydd Cytûn yn cadw mewn cysylltiad agos â'r enwadau wrth i'r Bil gael ei gyhoeddi ac wrth iddo deithio trwy'r Senedd.

Cewch ddarllen mwy am y cyhoeddiad hwn yma: <http://cadw.wales.gov.uk/about/news/heritage-bill/?skip=1&lang=cy>

## HENEIDDIO'N DDA YNG NGHYMRU

Mae *Heneiddio'n Dda yng Nghymru* yn gynllun cenedlaethol sy'n dod ag unigolion a chymunedau ynghyd â'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol at ei gilydd i ddatblygu a hyrwyddo ffyrdd arloesol ac ymarferol o wneud Cymru'n lle da i heneiddio i bawb.



Rhaglen bartneriaeth ar gyfer gweithredu ar y cyd ar draws Cymru ac yn Ewrop  
.....  
A partnership programme for collaborative action across Wales and in Europe



Lansiwyd y rhaglen yn Hydref 2014, ac mae'n cael ei chadeirio gan Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Amcanion Heneiddio'n Dda yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf yw:

- Gwneud Cymru'n Genedl o Gymunedau Oed-Gyfeillgar.
- Gwneud Cymru'n genedl sy'n cefnogi dementia drwy ddatblygu a hyrwyddo cymunedau sy'n cefnogi dementia.
- Cefnogi pobl hŷn i leihau eu risg o gwmpo, gan leihau nifer y cwmpadau ymysg pobl hŷn yng Nghymru.
- Gwella iechyd a lles pobl hŷn yng Nghymru drwy leihau effaith negyddol unigrwydd a bod yn ynysig.
- Sicrhau bod profiad pobl hŷn yng Nghymru y gorau posibl drwy gyflogaeth a dysgu parhaus.

Gellir canfod mwy o wybodaeth yn rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru 2014-2019 yma:

[www.ageingwellinwales.com](http://www.ageingwellinwales.com)

Os ydych chi'n gwneud rhywbeth yn eich gwaith neu'ch cymuned sy'n gysylltiedig â nodau Heneiddio'n Dda yng Nghymru, neu'n cynllunio i wneud hynny, byddent wrth eu bodd clywed oddi wrthyh. Anfonwch e-bost at: [heneiddiondda@olderpeoplewales.com](mailto:heneiddiondda@olderpeoplewales.com) neu ffoniwch dîm Heneiddio'n Dda yng Nghymru ar 08442 640 670.

## GWELEDIGAETH 2020

Sut le fydd Prydain erbyn 2020? Beth yw ein hymateb ar sail ein ffydd? Dyma'r cwestiwn sydd wrth wraidd adnodd newydd gomisiynwyd gan Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) i helpu'r eglwys baratoi at Etholiad San Steffan ar 7fed Mai eleni. Mae'r adnodd, a gynhyrchwyd ar y cyd â nifer o fudiadau Cristnogol, yn fodd i ddechrau trafodaeth yn ein heglwys a chyda'r ymgeiswyr a fydd yn curu ar ein drysau cyn bo hir.

Mae Tîm Materion Cyhoeddus tri o'r enwadau (yr Eglwys Fethodistaidd, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig) hefyd yn cyhoeddi papurau briffio di-duedd ar bynciau allweddol yr etholiad dan y teitl *Faith in Politics 2015*. Bydd rhain yn rhoi crynodeb byr am gefndir pob agwedd ac yn awgrymu cwestiynau i'w gofyn. Bydd pob tudalen hefyd yn esbonio a yw'r pwnc wedi'i ddatganoli i Gymru ai peidio, fel y gallwch farnu a fydd eich Aelod Seneddol newydd yn gallu dylanwadu ar yr hyn fydd yn digwydd yn y maes arbennig yng Nghymru.

Bydd yr holl adnoddau ar gael ar wefan arbennig CTBI at yr etholiad wrth iddyn nhw gael eu cyhoeddi: <http://www.ctbi.org.uk/696>

Gellir gweld ceisiadau maniffesto mudiadau a chymdeithasau lu ledled Prydain ar: <http://centrallobby.politicshome.com/members/member-page/sites/politicshome-manifesto-hub/pages/welcome-449222955f/>



## **GWYBODAETH AM Y CYNULLIAD A LLYWODRAETH CYMRU**

Gallwch gyrchu gwybodaeth gyflawn am waith y Cynulliad a'r Llywodraeth, a sut i ymateb iddo, drwy'r we. Dyma'r tudalennau allweddol:

Ar wefan [www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru) gallwch weld [Amserlen trafodaethau'r Cynulliad](#) a chael manylion am ble mae hi ar [ddeddfwriaeth](#) sydd wedi'i chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ymhlith y biliau sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd mae:

- [Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)](#) sydd yn ceisio lleihau trais o'r fath
- [Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) fyddai'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i feddwl am genedlaethau'r dyfodol, ac nid dim ond y presennol, wrth wneud penderfyniadau, gyda Chomisiynydd i gadw golwg ar hyn. Mae nifer o fudiadau sy'n ymddiddori yn yr amgylchedd yn ceisio cryfhau'r mesur ar hyn o bryd – er enghraifft gallwch weld ymateb WWF [yma. \(wales.wwf.org.uk\)](http://yma.wales.wwf.org.uk)

Mae Biliau am Gynllunio a Chymwysterau hefyd yn teithio drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ([www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)) yn cynhyrchu bwletin wythnosol yn rhestru'r holl [ymgyngoriadau](#) sy'n digwydd ac yn effeithio ar Gymru.

Ymhlith yr ymgynghoriadau y gallwch ymateb iddynt ar hyn o bryd mae:

- A ddylid codi i 18 yr isafswm oed ar gyfer prynu [e-sigarennau](#)?
- Cynllun [Siarad â fi](#) i geisio lleihau nifer yr hunan-laddiadau gan bobl ifainc
- [Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru](#)
- [Cynllun Costau Teithio'r Gwasanaeth Iechyd](#) sy'n cynnig help i bobl i fforddio cyarredd apwyntiadau ysbyty ayb
- Mae Comisiynydd y Gymraeg yn holi am ail gylch o ymchwiliadau parthed [darparu gwasanaethau Cymraeg](#) i'r cyhoedd
- [Dulliau o drechu tlodi yn y gymuned](#) – beth am rannu profiad eich eglwys chi?
- Rheoliadau manwl am sut fydd y gwasanaethau statudol yn [diogelu plant ac oedolion bregus](#) sydd mewn perygl

Dilynwch y cyswllt i'r we ymhob achos ac fe gewch gyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno'ch sylwadau, fel unigolyn neu ar ran eich Eglwys yn genedlaethol neu'n lleol.

## **A FYDD EIN POBL IFAINC YN GALLU BLEIDLEISIO?**

Mae Diwrnod Cenedlaethol Cofrestru i Bleidleisio yn cael ei gynnal ar 5ed Chwefror 2015 fel rhan o Wythnos Weithredu (2-8 Chwefror) i ysbrydoli pobl ifainc yn arbennig i gofrestru i bleidleisio. Y nod yw ychwanegu 250,000 i'r gofrestr etholiadol ar y diwrnod. Ydy pobl ifainc eich eglwysi chi wedi eu cofrestru? Os na, allech chi eu hannog a'u cymell i sicrhau nad ydynt yn colli eu llais? Gallwch ddarllen rhagor o fanylion yn [www.bitetheballot.co.uk](http://www.bitetheballot.co.uk)

## **TENANTIAID TAI CYMRU YN WYNEBU TRAFFERTHION**

Mae llawer o feysydd sydd heb eu datganoli i Gymru. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru newydd gyhoeddi adroddiad yn dweud fod y newidiadau diweddar i'r system budd-dal tai wedi cael mwy o effaith yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain, a bod angen i gynghorau a darparwyr tai cymdeithasol gyd-weithio'n agosach i liniaru'r effaith. Gallwch ddarllen yur adroddiad yn llawn ar [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk).

## A BETH AM EWROP?

Derbyniom yn swyddfa Cytûn yn ddiweddar lythyr gan y Parch. Keith Clements, arbenigwr ar berthynas yr eglwysi ag Ewrop, yn holi ydy eglwysi Cymru yn ymddiddori o sfabwynt Cristnogol yn y drafodaeth gyhoeddus sy'n datblygu am ein dyfodol yn yr Undeb Ewropeaidd a refferendwm posibl am hynny yn 2017.

Mae Keith yn ein hatgoffa sut y bu i'r eglwysi gydio yn y mater hwn ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd ym 1945. Fe gynhyrnodd Cyngor Eglwysi Prydain ddeunydd trafod megis *Christians and the Common Market* wrth baratoi at y diwrnod y death Prydain yn aelod o'r Gymuned Ewropeaidd (bellach yr Undeb Ewropeaidd) ym 1973, ac wedyn y refferendwm a gadarnhaodd hynny ym 1975.

Y gred bryd hynny oedd fod hwn yn fater moesol, yn ymwneud â chyfrifoldeb Cristnogol dros ein brodyr a chwiorydd mewn gwledydd cyfagos. Mae Cynhadledd Eglwysi Ewrop (CEC) yn parhau i hybu ymateb Cristnogol i faterion cyfianwder a heddwch ledled y cyfandir.

A oes gan eglwysi Cymru berspectif ar y materion hyn wrth iddynt ddod unwaith eto i frig yr agenda gwleidyddol? Fe hoffai Swyddog Polisi Cytun glywed eich ymateb, ac unrhyw gamau mae eich eglwys chi wedi eu cymryd i hybu'r drafodaeth.

## PA FATH O FWLETIN FYDD O HELP I CHI?

Bwriad y Bwletin Polisi hwn yw bod yn arwyddbost ac ychwanegu gwerth at yr hyn sydd eisoes ar gael ar wefannau megis y rhai y cyfeiriwyd atynt ar dudalen 3. Felly, fe hoffwn glywed gennyhch **pa fath o Fwletin Polisi** fyddai o ddefnydd i chi yn y dyfodol. Ar ba bynciau a meysydd y dylai ganolbwytio? Faint o fanylder yr hoffech ei gael am ddeddfwriaeth Cymru? Ac am weithgareddau'r Llywodraeth? Ydy materion cyfansoddiadol o bwys i'ch eglwys chi? Beth am ein gwaith ar y cyd â chrefyddau eraill ac â'r 'Trydydd Sector' (elusennau a chyrrff di-elw eraill) yn ehangach? Fe werthfawrogaf bob awgrym – tra'n cydnabod bod yr eglwysi ar hyn o bryd ond yn barod i dalu am tridie'r wythnos o waith yn y maes hwn gan un swyddog gyda Cytûn, ac felly mae'r adnoddau'n brin.

Fe hoffwn ofyn hefyd, felly, **a allwn ni helpu ein gilydd**. Fe hoffwn grynhoi rhestr o bobl o fewn yr eglwysi – swyddogion neu aelodau cyffredin – sy'n arbenigwyr yn eu maes, ac a fyddai'n barod i edrych dros ddogfennau mewn maes arbennig pan ddônt i law a gwneud sylwadau arnynt o berspectif Cristnogol. Croesawaf wirfoddolwyr ac enwebiadau!

Yn yr un modd, hoffwn wybod **pwyl o fewn eich Eglwys neu Undeb eglwysi** ddylai fod yn derbyn y Bwletin hwn. Mae ar gael i bawb ar [www.cytun.org.uk](http://www.cytun.org.uk), wrth gwrs, ond rydym yn barod i e-bostio'n uniongyrchol ond i ni gael gwybod. Fe wnewn hefyd eich dileu o'r rhestr os nad ydych am ei dderbyn bellach – rhowch wybod i mi.

***Dyma fy manylion cyswllt ar gyfer hyn a materion eraill:***

**Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer**  
**Cytun - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales**  
58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT  
Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

***Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.***

***Happy to communicate in Welsh and English***

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 |

